


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Epigen

Trefniant cydweithredol rhwng y byd academaidd a diwydiant yw ‘Epigen’ sy’n cynorthwyo dau gwmni o Gymru i fanteisio ar farchnad fyd eang gwerth oddeutu £50 miliwn.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Caiff Epigeneteg, sef astudio gwybodaeth am enynnau a’u nodweddion, ei ddefnyddio mewn gwaith ymchwil hollbwysig ynghylch clefydau gan gynnwys canser a chyflyrau niwro-ddirywiol fel Parkinson’s.

Mae disgwyl i ymchwil sy’n mynd rhagddi o fewn y diwydiant sicrhau gwelliannau i ofal iechyd ac o ran trin clefydau. Eto i gyd, mae epigneteg yn faes cymharol newydd o hyd.

Sylwodd Prifysgol Abertawe ar fwlch yn y farchnad a ffurfiodd drefniant cydweithredol rhwng y diwydiant a’r byd academaidd ar y cyd â’r Porvair Filtration Group. Mae’r grŵp hwn yn darparu cynhyrchion hidlo ar gyfer labordai ymchwil a labordai sy’n cynnal profion diagnostig clinigol. Cydweithir yn ogystal â chwmni Ig Innovations, sef cwmni o Landysul sy’n cynhyrchu gwrthgyrff at ddibenion gwaith ymchwil a gwaith diagnosteg ar bobl.

Gyda chymorth Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe, a sicrhaodd gefnogaeth ariannol gan raglen A4B Llywodraeth Cymru, mae’r prosiect Epigen wedi galluogi gwaith ymchwil helaeth a gwaith datblygu mewn technolegau arloesol, gan greu dull ymchwil newydd ym maes epigeneteg o’r enw Chromatrap sydd bellach yn rhan o’r farchnad gwyddorau bywyd.

Gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Porvair ac Ig Innovations wedi meithrin cysylltiadau â darparwyr academaidd a darparwyr masnachol, gan sicrhau nifer o fanteision masnachol sy’n cynnwys mynediad i farchnad fyd eang ym maes epigeneteg.

Mae Ig-Innovations wedi gallu dilysu ei wrthgyrff gan ddefnyddio system Chromatrap Porvair, sydd bellach yn gynnyrch a gaiff ei ddiogelu gan batentau ac sydd ar gael o fewn y farchnad.

Dywedodd Dr Lewis Francis: “Cydweithredu â diwydiant yw un o brif amcanion Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe. Mae cyllid A4B gan Lywodraeth Cymru wedi ein galluogi i gynorthwyo dau fusnes i baratoi eu cynhyrchion ar gyfer y farchnad ac mae hefyd wedi chwyldroi’r farchnad gwyddorau bywyd. Golyga’r prosiect ymchwil hwn, sy’n brosiect ar y cyd, y bydd Cymru’n gwneud cyfraniad enfawr ym maes ymchwil epigeneteg.”

Busnes Cymru
Business Wales

I gael gwybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**E-bost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014